

# Chwarae Teg?

Defnyddio'r Gemau Olympaidd i edrych ar anghydraddoldeb



OXFAM

# Sesiwn Mathemateg

## Mesur y bylchau



**OXFAM**





# GEMAU OLYMPAIDD RIO 2016

Bydd **10,500** o athletwyr o **206** gwlad yn cymryd rhan. Yn ystod **17** diwrnod y gemau bydd **306** camp i ennill medalau. Am bob camp, bydd **tair** medal yn cael eu rhoi – aur, arian ac efydd.

- Faint o fedalau fydd yn cael eu rhoi i gyd yn ystod y gemau?
- Petai pob gwlad yn cymryd rhan ym mhob camp a phetai ganddyn nhw gyfle cyfartal i ennill medal, tua faint o fedalau y byddai pob gwlad yn disgwyl eu hennill?



# ADNABOD BANERI



# NIFER YR ATHLETWYR

Y Deyrnas Unedig **556**

India **83**

Ffederasiwn Rwsia **437**

Sierra Leone **2**

Brasil **267**




# BETH SY'N BWYSIG?

**Cyfeillgarwch**

**Rhagoriaeth**

**Penderfyniad**

**Parch**



**Ysbrydoliaeth**

**Dewrder**

**Cydraddoldeb**



**OXFAM**

# INCWM GWLEDYDD

Mae Banc y Byd yn dosbarthu pob gwlad i un o'r categorïau hyn:

- gwlad incwm isel (GII)
- gwlad incwm canolig is (GICI)
- gwlad incwm canolig uwch (GICU)
- gwlad incwm uchel (GIU)




Ym mha grŵp mae pob un o'r gwledydd hyn, tybed?




**Brasil**

**GICU**



**Y DU**

**GIU**



**Nepal**

**GII**



**Nigeria**

**GICI**




# AMSER MEDDWL

- Pa grŵp o wledydd sydd â'r canran uchaf o wledydd yn ennill o leiaf un fedal?
- Pa grŵp o wledydd sydd â'r canran isaf o wledydd yn ennill o leiaf un fedal?
- Yn eich barn chi, pam mae canran y gwledydd sy'n ennill o leiaf un fedal yn uwch yn y grwpiau gwledydd incwm uwch nag yn y grwpiau gwledydd incwm is?
- Yn ôl y data hyn, pa grŵp o wledydd sydd fwyaf tebygol o fod â gwlad sy'n ennill o leiaf un fedal? Pa grŵp o wledydd yw'r lleiaf tebygol o gynnwys gwlad sy'n ennill o leiaf un fedal?
- Pa ffactorau eraill a allai effeithio ar y cyfleoedd sydd gan wlad o ennill o leiaf un fedal?





# CAMPAU OLYMPAIDD



OXFAM

# AMSER MEDDWL

- Pa gampau allai fod ag ychydig o athletwyr neu ddim athletwyr o gwbl o wledydd incwm is sy'n cymryd rhan ac yn ennill medalau? Pam rydych chi'n meddwl hyn?
- Pa gampau allai fod â mwy o athletwyr o wledydd incwm is yn cymryd rhan? Pam rydych chi'n meddwl hyn?
- Sut gallech chi ymchwilio i hyn?



# ANGHYDRADDOLDEB RHWNG

## GWLEDYDD

Mae anghydraddoldeb rhwng gwledydd yn y byd.

Mae hyn yn golygu nad yw pethau wedi'u rhannu'n deg rhwng gwledydd.

Er enghraifft, mae rhai gwledydd yn gyfoethog ac mae eraill yn hynod o dlawd.



# ANGHYDRADDOLDEB O FEWN GWLEDYDD

Hefyd mae anghydraddoldeb o fewn gwledydd.

Mae hyn yn golygu nad yw pethau'n cael eu rhannu'n deg o fewn yr un wlad.

Er enghraifft, efallai fod gan rai pobl fwy o arian nag eraill.



The UK's  
**5 RICHEST**  
families own  
more wealth than  
**12.6 MILLION**  
of us put together



**OXFAM**

# SGORIO ANGHYDRADDOLDEB O FEWN GWLEDYDD

Gellir rhoi sgôr i wledydd (o'r enw mynegai Gini) i ddangos pa mor gydradd neu anghydradd maen nhw.

0 ✓

Mae sgôr o 0 yn golygu bod y wlad yn hollol gydradd, fod gan bawb yn y wlad honno'r un faint o arian.

Byddai hynny'n edrych yn debyg i hyn:



Mewn gwirionedd, does dim un wlad yn edrych fel hyn.




OXFAM

# SGORIO ANGHYDRADDOLDEB O FEWN GWLEDYDD

Mae sgôr o 100 yn golygu bod y wlad yn hollol anghydradd.

Byddai hynny'n edrych yn debyg i hyn:

100 ✖



Mewn gwirionedd, diolch byth, does dim un wlad yn edrych fel hyn  
chwaith.




OXFAM

# ANGHYDRADDOLDEB O FEWN GWLEDYDD

Beth rydych chi'n meddwl yw'r sgôr cydraddoldeb ar gyfer y DU?

Beth rydych chi'n meddwl yw'r sgôr cydraddoldeb ar gyfer Brasil?


Ble bydden nhw'n dod ar y siart isod?



OXFAM



# ANGHYDRADDOLDEB O GWMPAS Y BYD



## SGÔR TEGWCH



OXFAM

# YSTYRIED ANGHYDRADDOLDEB

Nid mater o sut caiff arian ei rannu rhwng ac o fewn gwledydd yn unig yw anghydraddoldeb.

Gall fod anghydraddoldeb hefyd yn y mathau o gyfleoedd sydd gan bobl yn eu bywyd.

